| | |
|---|---|
| Teitl y swydd | Rheolwr Datblygu Rhaglen Dreftadaeth y Berllan |
| Hyd y penodiad | 18 mis i ddechrau, gyda'r disgwyliad o gael eich cadw yn y swydd am dair blynedd bellach ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn ddibynnol ar gymeradwyo cyllid. |
| Oriau gweithio | 0.6 FTE 22.5 awr yr wythnos |
| Atebol i | Pennaeth Gweithrediadau a Rhaglenni |
| Lleoliad | Cymru (de neu ganolbarth yn ddelfrydol) – gweithio o gartref yn bennaf gyda rhywfaint o deithio i gwrdd â phartneriaid ac aelodau'r tîm yn yr ardaloedd hyn |
| Cyflog | £38,000 pro rata ynghyd â phensiwn cyflogwr o 5% a chyllideb llesiant |

**Am Brosiect y Berllan / The Orchard Project**

Prosiect y Berllan / The Orchard Project yw'r unig elusen yn y DU sydd wedi ymroi i ddod â pherllannau yn ôl i galon cymunedau trefol. Ein gweledigaeth yw y gall pawb mewn ardaloedd trefol fod o fewn pellter cerdded i berllan gymunedol, Rydyn ni'n credu y gall perllannau cymunedol drawsnewid bywydau a helpu natur i ffynnu, felly rydyn ni'n cefnogi pobl i greu perllannau newydd neu i adfer rhai sy'n bodoli eisoes yn ôl yn iach. Drwy gyfrwng perllannau trefol, rydyn ni'n helpu i gryfhau a chysylltu cymunedau, gwella llecynnau glas lleol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt, hyfforddi gwirfoddolwyr i ddysgu sgiliau newydd, cynnal digwyddiadau a gweithgareddau, a datblygu ffynhonnell leol, rad ac am ddim, o ffrwythau ffres iach. Gweler fwy am ein heffaith ar ein gwefan.

Fe ddechreuon ni yn 2009 ac rydyn ni wedi tyfu i ddod yn elusen perllannau cymunedol genedlaethol y wlad. Rydyn ni wedi creu ac adfer dros 700 o berllannau cymunedol yn ystod y cyfnod hwnnw ac rydyn ni'n cynnal rhaglenni hyfforddi gydag oedolion ac ysgolion, a digwyddiadau dathlu perllannau. Rydyn ni wedi bod yn gweithio yng Nghymru ers 2020 ac mae ein tîn wedi bod yn gweithio yn Abertawe a'r cyffiniau i greu, adfer a dathlu perllannau, gyda ffocws ar gynnig hyfforddiant mewn rheoli perllannau, sy'n cynnwys ein cwrs hyfforddi achrededig rhagorol mewn Rheoli Perllannau Cymunedol (CICO).

Rydyn ni'n cynnig ystod o fuddion i'r staff, sy'n cynnwys:

- Lwfans gwyliau o 25 dydd FTE gyda defnydd hyblyg o wyliau banc a dyddiau ychwanegol i ffwrdd rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
- Amser i ffwrdd yn lle oriau ychwanegol a weithiwyd y tu allan i ddiwrnodau gwaith safonol
- Hyblygrwydd ynghylch dyddiau ac oriau gwaith, a'r opsiwn i weithio o gartref, er bod gofyn gweithio rhai penwythnosau.
- Cyfleoedd hyfforddi a chyllideb ar gyfer pob aelod staff i fynd i'r afael ag anghenion. hyfforddi a datblygiad personol a amlygwyd
- Cyfraniad pensiwn cyfwerth â 5% o'r gyflog
- Cyllideb llesiant hyblyg bob mis i gefnogi llesiant personol unigolyn

**Am y rhaglen hon**

Amcan **Achub Ein Treftadaeth Berllan (Save Our Orchard Heritage),** a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yw gwarchod a hybu ein treftadaeth berllan Gymreig: yr amrywiaethau anghofiedig o ffrwythau lleol sy'n dweud cymaint wrthym am hanes Cymru; y coed hynafol a esgeuluswyd sy'n gartref i rywogaethau sydd mewn perygl eithafol o gael eu colli a'r casgliad o sgiliau perllan traddodiadol sydd ym meddiant pwll cynyddol fychan o arbenigwyr angerddol.

Ein nod yw creu a chefnogi rhwydwaith o berllannau dan arweiniad y gymuned, a chynyddu mynediad a chyfranogiad drwy gyfrwng digwyddiadau, hyfforddi a rhannu sgiliau.

Byddwn ni'n edrych yn arbennig ar gyfleoedd i ymgysylltu â grwpiau dihaeddiant ac ymylol gyda threftadaeth perllannau, er mwyn gwneud yn fawr o effaith y prosiect ar gyfer pobl a natur fel ei gilydd, a gweithio tuag at gael mwy o fynediad teg i bobl sydd wedi'u dadhaeddu o ganlyniad i'w treftadaeth.

Mae tri llinyn i'r prosiect:

Llinyn 1: Canolbwyntio ar dreftadaeth naturiol: Darparu adfywiad mewn perllannau dan arweiniad y gymuned

- Adfer a rheoli perllannau treftadaeth
- Ailddarganfod ac ailblannu amrywiaethau o ffrwythau treftadaeth sydd mewn perygl o gael eu colli
- Adfer natur mewn perllannau traddodiadol

Llinyn 2: Diogelu treftadaeth ddiwylliannol annirweddol – ein sgiliau traddodiadol

- Hyfforddiant i grwpiau cymunedol
- Adfer sgiliau perllan treftadaeth fel tocio ac impio
- Hyfforddiant a hyfforddeiaeth achrededig i gefnogi sgiliau ar gyfer swyddi yn y sectorau gwyrdd a threftadaeth

Llinyn 3: Ailgysylltu pobl â threftadaeth naturiol a diwylliannol annirweddol perllannau Cymru

- Digwyddiadau cymunedol i gysylltu pobl â pherllannau treftadaeth
- Rhaglen ysgolion i gyffroi pobl ifanc am ein hanes cyfoethog o berllannau Cymreig
- Digwyddiadau creu sudd a chynaeafu i gysylltu pobl â gweithgareddau perllan traddodiadol

Cefnogir y prosiect gydag arian oddi wrth y Gronfa Dreftadaeth am bedair blynedd a hanner, gyda chyfnod datblygu am 18 mis i ddechrau. Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gyda Social Farms and Gardens a Cwm Arian er mwyn bod o fudd i gymunedau ledled Cymru.

**Prif bwrpas y swydd**

Bydd y swydd hon yn gyfrifol am oruchwylio cyfnod datblygu cychwynnol prosiect 'Achub Ein Treftadaeth Berllan', yn ogystal â datblygu a chyflwyno'r cais llawn am gyllid ar gyfer y tair blynedd o gyflawni sy'n dilyn. Mae'r rôl yn cynnwys datblygu a rheoli'r prosiect a'r gyllideb yn fanwl, gan sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei nodau a'i ganlyniadau. Mae hefyd yn cynnwys ymgysylltu â phartneriaid a'u rheoli, cydweithio ag aelodau eraill o staff y prosiect ac ymgynghorwyr allanol, monitro a gwerthuso, yn ogystal ag adrodd a chysylltu â'r Gronfa Dreftadaeth a phartneriaid allweddol.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda rheolwyr prosiect De Cymru o fewn i Brosiect y Berllan, yn ogystal â staff o'n sefydliadau partner sydd hefyd yn cyflawni agweddau allweddol ar y prosiect hwn ledled Cymru. Byddant hefyd yn cael cefnogaeth gan weddill ein tîm sydd wedi'u lleoli ledled y DU, er mwyn rhannu arferion da, datblygu cymorth rhwng cyfoedion, a dod yn aelod gweithgar o'n tîm cyfeillgar ac angerddol, sy'n cynnwys 18 o bobl.

I ddechrau, bydd y swydd hon ar gyfer cyfnod datblygu'r prosiect – sef 18 mis – ond rydyn ni'n rhagweld y bydd yn cwmpasu'r cyfnod llawn o 4.5 mlynedd, os bydd y prosiect yn datblygu yn unol â'r disgwyl.

**Rhychwant y swydd:**

**Rheoli Rhaglen**

- Rheoli darparu cyfnod datblygu'r rhaglen mewn modd llyfn, gan sicrhau bod y prosiect yn cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel, ar amser ac o fewn y gyllideb
- Paratoi'r ffurflen gais ar gyfer y blynyddoedd cyflawni a chynhyrchu'r holl wybodaeth ategol sy'n angenrheidiol i'w chyflwyno gan gynnwys: cynllun gweithgaredd manwl ar gyfer y blynyddoedd cyflawni, cyllideb fanwl wedi'i diweddaru, strategaeth farchnata a chyfathrebu, amserlen prosiect wedi'i diweddaru, briffiau ymgynghorwyr, cynllun gwerthuso, asesiadau risg.
- Recriwtio a goruchwylio ymgynghorwyr allanol sy'n ymwneud â'r prosiect
- Rheoli cyllideb y prosiect

- Rheoli a datblygu perthynas â'r sefydliadau partner, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd gweithgor rheolaidd
- Goruchwylio datblygiad fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer y prosiect gan weithio gydag ymgynghorydd
- Bod yn bwynt cyswllt allweddol o fewn y sefydliad ar gyfer cysylltu â'r Gronfa Dreftadaeth, gyda chefnogaeth Pennaeth Gweithrediadau a Rhaglenni, a darparu ymatebion amserol i geisiadau am wybodaeth gan gynnwys adroddiadau monitro
- Sicrhau bod pob partner yn ymwybodol o dargedau cyflawni ar gyfer y cyfnod datblygu ac yn cadw atynt
- Gweithio gyda phartneriaid i werthuso gweithgaredd peilot a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddatblygu i lywio cynllunio cyfnod cyflawni'r prosiect
- Cefnogi datblygiad modelau cyflawni a phartneriaethau ar gyfer cyflawni'r rhaglen hyfforddi achrededig a'r hyfforddeiaeth ôl-ofal ar gyfer blynyddoedd cyflawni'r prosiect
- Sicrhau ffynonellau arian cyfatebol i gyrraedd targedau'r prosiect gyda chefnogaeth y Pennaeth Codi Arian
- Rhagwelir y bydd y rôl hon yn cynnwys rheoli llinell dros aelod newydd o'r tîm unwaith y bydd cyfnod cyflawni'r prosiect yn dechrau.

**Cyfrifoldebau ychwanegol:**

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol
- Mynychu a chyfrannu at ddiwrnodau creu a hybu gweledigaeth i staff a chyfarfodydd tîm ar draws y DU
- Rhannu arferion gorau gyda phartneriaid ac aelodau eraill o'r staff
- Unrhyw dasgau sefydliadol rhesymol eraill sy'n briodol ar gyfer cyflawni'r prosiect yn llwyddiannus ac ar gyfer bod yn rhan o dîm Prosiect y Berllan
- Bydd y swydd hon yn golygu teithio ledled Cymru i gwrdd â phartneriaid a mynychu digwyddiadau allweddol

**<u>Manyleb y Person:</u>**

**Profiad gofynnol ar gyfer y swydd hon;**

- Sgiliau rheoli prosiect rhagorol
- Profiad o reoli cyllidebau
- Profiad codi arian, yn enwedig ar gyfer ceisiadau mawr a chymhleth
- Gweithredu fframweithiau monitro a gwerthuso ac adrodd i gyllidwyr
- Rheoli prosiectau partneriaeth
- Datblygu a chynnal perthynas â grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, corfforaethau a rhanddeiliaid eraill
- Gweithio ar eich menter eich hun
- Sgiliau rheoli pobl
- Gweithio yn y sector gwirfoddol neu ddi-elw
- Byddai meddu ar brofiad o weithio ar brosiectau'r Gronfa Dreftadaeth o fantais

**Gwybodaeth a sgiliau angenrheidiol;**

- Medrus wrth ddod o hyd i atebion, creadigol ac yn mwynhau datrys problemau
- Profiad mewn gweithgareddau perthnasol, gan gynnwys datblygu cynaliadwy, addysg amgylcheddol, prosiectau cymunedol, tyfu bwyd, ac ati.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol
- Trefnus iawn, gyda'r gallu i roi sylw i'r darlun ehangach yn ogystal â'r manylion llai
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol eithriadol
- Byddai gallu siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon

**Cyneddfau personol a'r mathau o ymddygiad y dymunwn eu gweld:**

- Angerdd a diddordeb mewn perllannau treftadaeth Cymreig ac awydd i rannu hyn ag eraill
- Dull rhagweithiol o rannu dysgu gyda staff eraill a phartneriaid
- Hyrwyddwr ardderchog ar gyfer yr elusen a'r prosiect
- Yn angerddol am y potensial i drawsnewid cymunedau ledled Cymru a gwella bywydau unigolion drwy'r prosiect
- Parodrwydd i dorchi eich llewys a mynd i'r afael â gwaith
- Hyblyg ac arloesol yn eich dull o gyflawni prosiectau

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch ffurflen cyfle cyfartal (sydd ar gael ar ein gwefan), CV dienw*, eich CV llawn, a llythyr eglurhaol yn esbonio pam rydych chi'n frwdfrydig am y cyfle hwn a sut mae eich sgiliau yn addas ar gyfer y swydd, at orchard@theorchardproject.org.uk erbyn hanner nos ddydd Sul 22 Tachwedd.

Byddwn yn cynnal cyfweliadau yn ystod wythnos 30 Tachwedd, ar ddydd Iau 3 Rhagfyr yn fwyaf tebygol.

Ein dymuniad yw bod ein sefydliad mor amrywiol â'r cymunedau y mae'n eu cefnogi. Rydyn ni'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, waeth beth yw eu hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu anabledd. Ni fydd y staff sy'n llunio'r rhestr fer o ymgeiswyr yn gweld y ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a gyflwynwch. Dim ond manylion eich profiad gwaith blaenorol, eich cymwysterau, a'ch datganiadau ysgrifenedig, sy'n disgrifio sut rydych chi'n bodloni gofynion y rôl hon, a anfonir at y rhai sy'n llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweliadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl hon, gallwch gysylltu â'n Pennaeth Gweithrediadau a Rhaglenni, abby@theorchardproject.org.uk, cyn y dyddiad cau.

Rhaid bod gan ymgeiswyr yr hawl i weithio yn y DU.

***Recriwtio Dienw**

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddenu a chyflogi'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd. I sicrhau hyn, rydyn ni'n gweithredu proses recriwtio dienw cyn y cyfweliad.

Er mwyn cynnal eich anhysbysrwydd yn ystod y broses o lunio rhestr fer, bydd gofyn i chi gyflwyni dwy fersiwn o'ch CV – un fersiwn lawn o'ch CV ac ail CV ble tynnwyd pob gwybodaeth bersonol. Dylech hefyd wirio eich llythyr cyflwyni i sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw fanylion personol, e.e. peidiwch â rhoi eich enw ar ddiwedd y llythyr.

Ar gyfer y copi dienw, dylech ddileu:

- Eich enw
- Eich cyfeiriad
- Eich dyddiad geni
- Dyddiadau derbyn unrhyw gymwysterau
- Dyddiadau sy'n ymwneud ag unrhyw brofiad cyflogaeth oedd yn fwy na 5 mlynedd yn ôl
- Lleoliadau derbyn cymwysterau (h.y. eich ysgol neu brifysgol
- Eich llun
- Eich cyfeiriad e-bost
- Eich rhif ffôn
- Unrhyw wybodaeth a allai roi amcan o'ch oedran, cenedl ac ethnigrwydd, anabledd, ailosod rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, cenedligrwydd, crefydd neu gred, rhyw neu duedd rywiol.

Gallwch beri fod eich CV yn ddienw yn hawdd drwy ychwanegu XXXX i'r wybodaeth a ddilëwyd gennych.

**Ein Partneriaid**

Mae **SOCIAL FARMS & GARDENS** yn cefnogi cymunedau i gyd-ffermio, cyd-arddio a chyd-dyfu. Nod eu prosiect Perllannau i Gymru oedd plannu 60 o berllannau cymunedol newydd yng Nghymru, yn 2020. Mae gan SFG bresenoldeb eang iawn yng Nghymru, gyda chysylltiadau helaeth â chymunedau lleol a'r sgiliau a'r profiad i ddarparu ar raddfa fawr.

Mae **CWM ARIAN** yn darparu prosiectau cymunedol sy'n creu argraff gadarnhaol ar bobl a lleoedd yn Sir Benfro; gan gynnwys rhaglen fenter i gefnogi perllannau, rhwydwaith rhannu coed, a gwasanaeth gwasgu afalau blynyddol ar draws y sir. Gwreiddiwyd Cwm Arian yn ddwfn yn eu hardal leol, ac felly mae ganddynt y gallu i drefnu digwyddiadau cymunedol a fynychir yn gryf. Maen ganddynt hefyd weithlu hynod sgilgar a chysylltiadau lleol.

**Achub Ein Treftadaeth Berllan** yn bosibl gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Diolch i

chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym wedi gallu yw gwarchod a hybu ein treftadaeth berllan Gymreig: yr amrywiaethau anghofiedig o ffrwythau lleol sy'n dweud cymaint wrthym am hanes Cymru; y coed hynafol a esgeuluswyd sy'n gartref i rywogaethau sydd mewn perygl eithafol o gael eu colli.